

Profi, Orlhain, Diogelu y GIG: Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Profion COVID 19

(Nodyn canllaw: Lluniwyd y ffurflen ganiatâd gyffredin hon i'w defnyddio gan staff, rhieni a gwarcheidwaid disgyblion hŷn ysgolion uwchradd sydd o dan 16 oed, disgyblion hŷn ysgolion uwchradd sydd dros 16 oed, dysgwyr addysg bellach a staff. Dylid darllen yr adrannau sydd wedi'u tanlinellu fel y bo'n berthnasol, gan lenwi'r ffurflen fel a ganlyn:

- **ar gyfer disgyblion o dan 16 oed**, rhaid i'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol lenwi'r ffurflen. Cofiwch lenwi **un ffurflen ganiatâd ar gyfer pob plentyn** yr hoffech ei gofrestru.
- o ran **disgyblion dros 16 oed sy'n gallu rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth**, gallant lenwi'r ffurflen hon eu hunain, ar ôl trafod cymryd rhan â'u rhiant/gwarcheidwad.
- **ar gyfer unrhyw ddisgybl/dysgwr nad oes ganddo'r gallu i roi caniatâd ar sail gwybodaeth**, rhaid i'r ffurflen gael ei llenwi gan y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol.
- bydd **staff** yn llenwi'r ffurflen hon eu hunain.)

Caiff y rhaglen profi COVID-19 hon ei harwain gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru i ddarparu profion asymptomatig mewn ysgolion i staff a disgyblion/dysgwyr hŷn mewn ysgolion uwchradd ac addysg bellach.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Nid oes unrhyw ddisgwyliad na rhwymedigaeth i gymryd rhan. Ni ddylai unrhyw un orfod cymryd profion heb roi caniatâd i hynny, ac ni ddylai unrhyw un gael ei wahardd o'r ysgol os nad yw am gymryd prawf.

Darllenwch yr adrannau a ganlyn, gan lenwi'r cwestiynau isod a dychwelyd y ffurflen hon i'r ysgol/coleg cyn gynted â phosibl:

Rwyf wedi cael y cyfle i ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd imi gan yr ysgol ynghylch y rhaglen profi hon yn y llythyr dyddiedig ___/___/___ . Rwyf wedi cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am y rhaglen ac, os wyf wedi gofyn unrhyw gwestiynau, rwyf wedi cael atebion boddhaol i'r cwestiynau hynny.

I rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid disgyblion o dan 16 oed: Rwyf wedi trafod y profion â fy mhlentyn ac mae fy mhlentyn yn hapus i gymryd rhan. Os na fydd fy mhlentyn am gymryd rhan ar ddiwrnod y prawf, yna ni fydd yn cael ei orfodi i wneud hynny.

Llofnodwch isod os ydych yn cytuno â'r canlynol:

1. Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i gymryd rhan/i fy mhlentyn gymryd rhan yn y rhaglen profi.
2. Rwyf wedi deall y bydd fy nata i/data fy mhlentyn yn cael eu dal a'u rhannu yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd data.
3. Rwy'n cytuno y byddaf i/fy mhlentyn yn rhoi gwybod i'r ysgol os bydd canlyniadau fy mhrawf i/prawf fy mhlentyn yn bositif, er mwyn helpu ag olrhain cysylltiadau.
4. Rwy'n cytuno i gofnodi canlyniadau fy mhroffion i/proffion fy mhlentyn yn gywir yn www.gov.uk/report-covid19-result neu drwy ffonio 119.

Enw'r Aelod o Staff (LLYTHRENNAU BRAS)	
Enw'r Disgybl a'r grŵp blwyddyn (os yw'n berthnasol) (LLYTHRENNAU BRAS)	
Enw'r Rhiant/Gwarcheidwad os	

yw'r disgybl o dan 16 oed (LLYTHRENNAU BRAS)	
Llofnod	
Dyddiad	
Y berthynas â'r disgybl os yw o dan 16 oed	

Diolch ichi am lenwi'r ffurflen hon.